
# Stori'r Geni



# Stori'r Brenin Herod

# Stori'r Geni

## Stori'r Brenin Herod

**Gwybodaeth Gefndirol**

- Roedd y Rhufeiniaid wedi penodi Herod yn frenin ar Jwdea. Roedd Bethlehem yn un o'r pentrefi dan ei awdurdod.
- Gofynnodd y Brenin Herod i'r gwŷr doeth ddweud wrtho ble roedd Iesu pan fydden nhw'n dod o hyd iddo, fel y gallai e hefyd fynd i'w addoli. Ond roedd ymateb Herod pan wnaeth y gwŷr doeth ddim dychwelyd ato yn awgrymu bod ganddo gymhellion sinistr.
- Gan ei fod yn teimlo fod ei frenhiniaeth dan fygythiad gorchmynnodd y Brenin Herod ladd pob bachgen dan ddwyflwydd oed oedd yn byw yn ardal Bethlehem. Dyma Duw yn rhybuddio Joseff mewn breuddwyd beth oedd bwriad Herod, felly aeth Joseff â Mair ac Iesu i'r Aifft i'w cadw'n saff.

**Yn y Beibl**

- Gelli ddarllen am y Brenin Herod yn y Beibl, yn llyfr Mathew, pennod 2, o adnod 1 i adnod 8 ac o adnod 16 i adnod 20.

**Teimladau ac Emosiynau**

- Byddai Herod wedi bod yn ddryslyd. Sut allai brenin newydd gael ei eni ac yntau'n gwybod dim am y peth?
- Byddai wedi poeni y byddai'n colli ei le fel brenin.
- Byddai wedi bod yn genfigennus a chynddeiriog, a dyna arweiniodd e i orchymyn llofruddio plant diniwed.

**Gweithgaredd gydag oedolyn**

- Mae rheoli beth ti'n ddweud a'i wneud pan wyt ti'n flin yn anodd, ond mae'n bwysig.
- Mewn grwpiau bach gofynnwch i'r plant i actio senarios fyddai'n gwneud iddyn nhw deimlo'n ofnus neu flin, a sut i ddelio gyda'r emosiynau hynny. Beth am actio senario gydag ymateb cywir ac un arall gydag ymateb anghywir? Ar ôl ychydig funudau, gofynnwch i bob grŵp rannu rhai meddyliau a syniadau.

Enghreifftiau o senarios: mae rhywun yn gwrthod iti gymryd rhan mewn gêm; gofynnir iti ddarllen rhywbeth o flaen y dosbarth cyfan; mae rhywun yn sgriblo ar dy lun neu yn ei rwygo; rwyt yn cael dy anfon at y prifathro; mae rhywun yn chwerthin ar dy ben pan wyt ti'n methu cicio pêl-droed ac yn syrthio ar lawr.

**Myfyrio**

- Yn y Beibl, yn llyfr y Diarhebion, pennod 16, adnod 32, mae'n dweud:

  "Mae ... rheoli tymer yn well na choncro dinas."

- C: Beth wyt ti'n feddwl yw ystyr hynny?
- C: Pam wyt ti'n meddwl fod rheoli dy dymer yn bwysig?